CYFNODION CYFARFOD CYFFREDIN CYNGOR TREF MACHYNLLETH
Wedi ei cynnal yn Y Plas ar ddydd Llun Mai 25 2009

Bresennol: Cllrs. B. Dunn; S Rowlands; E Hughes; S Nicholas; G Baldwin; DW Davies; G Davies; G Jenkins; M Williams; K Hubbard

Hefyd yn Bresennol: J. H. Parsons - Clerc; M Biffin – Ysgrifennyddes

---

5323 CT 25.05.09 **Ymddiheuriadau**
- Cyng. D Lewis

5324 CT 25.05.09 **Cyflwyniad**
- Doedd dim cyflwyniad y tro hyn

5325 CT 25.05.09 **Cofnodion**
Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor

5326 CT 25.05.09 **Busnes Stadurol**
- Doedd dim I drafod

5327 CT 25.05.09 **Busnes y Maer**
Fe roddodd y Maer ei adroddiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

5328 CT 25.05.09 **Materion yw codi**
- Seddi ar Penrallt **(5313)** – Dywedodd Cyng Baldwin bod y seddi yn Penrallt wedi cael ei symud a bod y preswylwyr yn ddiolchgar.
- Parcio ceir yn yr Orsaf **(5297)** – Dywedodd Cyng Dunn ei fod wedi cyfarfod gyda'r rheolwr ynglyn a parcio ac ei fod wedi gyrru manylion y cyfarfod I'r Cynghorion I gyd – Awgrymodd Cyng Williams ddylsai trefnu cyfarfod arall gyda'r rheolwr I drafod hyn yn bellach.– Dywedodd Cyng D W Davies bod cerbyd wedi ceisio parcio yn parc Y Plas ond wedi darganfod ei bod yn anodd I gad-drefnu oherwydd y polion a gafwyd ei lleoli gan Tai Canolfan Cymru – Dywedodd Cyng Dunn bod CTM ddim yn gyfrifol am y parcio I gerbydau, serch hynny yr oedd Y Plas yn croesawu cerbydau. Y mae tri bae wedi ei lleoli cyn bod y cerbydau yn cyrraedd y polion. Dywedodd hefyd pan gymerodd CTM y Plas yr oedd cais am y polion wedi ei roddi o flaen y cyngor ac wedi ei derbyn. Awgrymodd Cyng Hughes gan fod CTM wedi prynu tîr yn yr orsaf, sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio gan gerbydau Lloyd efallai fedr gael ei werthu a rhoddi'r prês I'r Plas. Awgrymodd Cyng Rowlands I ofyn I Mr Lloyd I geisio gad-drefnu cerbyd yn Y Plas a rhoddi gwybod yn ôl I CTM – Awgrymodd Cyng Rowlands I lythyr I cerbydau Lloyd I drafod hyn ac hefyd I drefnu cyfarfod gyda Mr Lloyd I drafod parcio ar y tîr yn yr Orsaf - **Cytunwyd**
- Pont Dyfi – llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Mick Bates AM. Dywedodd Cyng Williams bod bobl yn pryderu faint o amser fyddai unrhyw benderfyniad yn cymeryd – yr oedd bobl Llanwrin yn teimlo bod y traffig pan oedd llifogydd yn ormodol, y teimlad oedd ddylsai WAG drefnu hyn a

paratoi bont newydd a Ffordd ar draws y gwastadedd.

- Ailwampio Llwybr Troed – gyrrwyd e.bost I Adrian Jervis ac mae ateb wedi ei dderbyn oddiwrth Andrew Jones.

5329 **Adroddiad y Panel Pwrpas Cyffredin**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

25.05.09 Derbyniwyd llythyr oddiwrth yr Ysgol Gynradd yn dweud nag oeddynt eisiau cyfrannu tuagat lloches bws ac yr oeddynt yn defnyddio'r pres mewn man arall **Cytunwyd** na fyddai CTM yn dilyn y mater ac yn y dyfodol CSP fyddai a cyfrifoldeb am hyn

- Twb blodau – Dywedodd y clerc ei fod wedi siarad gyda'r gofalwr ac yr oedd y gofalwr yn aros am awdurdodiad oddiwrth CSP.
- Gwteri – Dywedodd Cyng Jenkins bod y Clwb Bowlio byth wedi derbyn yr adroddiad – **Cytunwyd** I yrru un iddynt.

5330 **Adroddiad y Panel Iechyd**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

25.05.09

- Dywedodd Cyng Williams byddai Cyngor Iechyd y Gymuned ddim yn newid a mi fydd i fynu I'r Cyngor Iechyd gymeryd cyfrifoldeb. Dywedodd Cyng Williams y byddai y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei ad-drefnu

5331 **Adroddiad Panel Cloc y dref**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

25.05.09

- Gofynnodd Cyng Jenkins fyddai CTM yn talu am faneri I hybysebu y masnachau y tu ôl I'r cloc oherwydd ei bod y tu ôl I'r sgaffaldiau tra oedd y gwaith yn mynd ymlaen **Cytunwyd** I Cyng Jenlins gael prisiau yn barod cyn y cyfarfod nesaf.

5332 **Adroddiad Panel y Plas**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

25.05.09

- Gofynnodd Cyng Jenkins pam bod £4,500 wedi cael ei dalu am offer yn y Bwyty a bod o ddim wedi cael ei drafod gan CTM ond yr oedd yn falch bod posibilrwydd o brynu piano wedi cael ei droi lawr – Dywedodd Cyng Dunn bod yr offer a brynwyd yn hanfodol a mi fyddai yn cael ei ddefnyddio gan y tenantiaid a fyddai yn cymeryd Y Bwyty. Mi fydd y tenantiaid newydd yn talu bond, mi fydd hwn yn warrant ar yr offer. Yr oedd Cyng Jenkins yn pryderu bod arian helaeth yn cael ei wario gan Panel Y Plas heb ddim cytundeb gyda gweddill y Cyngor. Cymerodd ddadl gwresog le – Dywedodd Cyng Jenkins ei body yn ofnus I siarad oherwydd bod bobl yn ymysodol ac yn amddiffynnol pan gofynir cwestiynau am redeg Y Plas. Pwyntiodd Cyng Dunn bod hyn ddim ond yn digwydd pan yr oedd wedi ateb y materion a godwyd ond er hynny oedd y bobl yn dal eisiau dadlu y mater. Dywedodd ei fod yn dechrau meddwl pa ateb fyddai yn foddhaol. Dywedodd Cyng Dunn ei fod yn Y Plas bob dydd ac efallai ddylsai rhai or cynghorwyr ddod yna I weithio os oeddynt yn pryderu. Yr oedd Cyng Rowlands yn falch bod Cyng Jenkins yn gofyn y cwestiynau oherwydd bod gan y Cynghorwyr hawl a dyletswydd I ofyn cwestiynau ac yr oedd yn gobeithio fyddai Cyng Jenkind yn dal I wneud hynny

.

5333 **Adroddiad Cyng Sir J.M. Williams**

CT Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

25.05.09

- Dywedodd Cyng Williams ynglyn a pwynt 2.1 doedd dim ymateb wedi ei dderbyn oddiwrth y cyhoedd.

5334 **Ceisiadau Cynllunio**

CT Nid oedd dim wedi ei derbyn

25.05.09

5335 **Datganiad Cyfrifon**

CT Mae cofnodion y cyfrifon wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

25.05.09

Date		Chq No	Chq Drawn
30/04/2009	R A Gaskell	5086	£ 120.77
29/04/2009	I G Owen	5087	£ 104.53
29/04/2009	BT	5088	£ 168.85
29/04/2009	PCC - Carnival Bunting Hoist Hire	5089	£ 448.75
07/05/2009	R A Gaskell	5090	£ 130.80
12/05/2009	R A Gaskell	5091	£ 110.54
12/05/2009	Inland Revenue	5092	£ 326.98
17/05/2009	B3 Architects	5093	£ 2,823.25
	Travis Perkins	5094	£ 157.92
	I G Owen	5095	£ 83.70
	Y Plas - Stamps	5096	£ 60.00
	Smith of Derby - Clock Maintenance	5097	£ 172.50
20/05/2009	R A Gaskell	5098	£ 120.77
29/05/2009	PCC - Rates on Community Centre	5099	£ 396.90
		TOTAL	**£ 5,226.26**

5336 **Gohebiaethau**

CT

25.05.09

- Llwyfan gorsaf Aberdyfi
- Gwella cyfathrebiad cytrwng CSP A Cynghorau Tref a'r Gymuned
- Llythyr oddiwrth Prif Arolygydd Gwyn Thomas
- Llythyr oddiwrth y Maer I'r Clwb Peldroed
- Coffa Winford Vaughan Thomas

5337 **Rhifennau**

CT

25.05.09

- Cynllun gweithred Awdurdod Tân ac Achub y Gorllewin a'r Ganolbarth. – Yr oedd Cyng Williams wedi llenwi ffurflen o gymeradwyaeth – mi fydd y clerc yn darllen y ffurflen ac yn gyrru hi I ffwrdd.

5338 **Unrhyw fusnes arall**

CT

25.05.09

- Plac tublaen Y Plas – Dywedodd Cyn Dunn pan gafodd y polyn a oedd yn dal y plac ei daro fe ddaeth y Plac I ffwrdd ond oedd wedi siarad gyda gweithwyr CSP a fe all y Plac gael ei roddi yn ôl.
- Rhandiroedd – Dywedodd Cyng Nicholas bod bobl yn gofyn oedd CTM yn mynd I ddarparu rhagor o randiroedd yn Y Plas. Dywedodd Cyng Dunn ei fod a tîr mewn meddwl ond efallai na fyddai yn addas oherwydd yr oedd yn agos at y Parc Moduron a'r ty yn terfyn y dreif. Dywedodd Cyng Williams pan oedd YPlas gyda CSP yr oeddynt wedi meddwl am ddarparu mwy ond oedd rhaid cael caniatâd cynllunio. Yr oedd adran cynllunio CSP wedi dweud fyddai yn cael ei droi I lawr oherwydd bod y tîr ar adeilad rhestredig Gradd 2 – awgrymodd Cyng Rowlands I Cyng Nicholas I gysylltu gyda'r hen ac anabl, y rhai oedd a gerddi mawr I weld os byddai diddordeb ganddyn I osod rhan o'I tîr I wneud rhandiroedd. Awgrymodd Cyng Williams I yrru llythyr I Mr Ian Fraisser, pennaeth tâi CSP yn y Trallwm yn gofyn a oedd rhywbeth yn cael ei wneud I ddod o hyd I dîr yn

Machynlleth. **Cytunwyd**

- Clwb Rygbi/Peldroed. Dywedodd Cyng Nicholas fod y ddau glwb yn cael trafferth gyda bobl ifanc yn yfed ac yn taflu ac yn claddu poteli oedd wedi torri ar draws y maes – oedd hefyd pryder ynglyn a ty coeden a oedd wedi ei adeiladu mewn coeden wrth y maes Rygbi. Dywedodd Cyng Jenkins bod y problemau yn digwydd yn y nos a fe ddylai cael swyddog yr heddlu I batrolio ynglyn hyn.
- Y Gwyrdd yn Bryn-y-GôG – Dywedodd Cyng Jenkins ei bod wedi cael cwynion oddiwrth preswylwyr yn Bryn y Gôg ynglyn a plant yn chwarae ar y gwyrdd y tu allan yw tâi, yr oedd preswylwyr lleol wedi ysgrifennu I CSP ond nid wedi cael ateb.**Cytunwyd** byddai Cyng Jenkins yn rhoddi copîau or llythyron I ysgrifennyddes MTC a mi fyddai llythyr yn cael ei yrru at Mr Ian Fraisser.
- Rheolwr yn y Plas - Dywedodd Cyng Hughes ddylsai rheolwr y Plas gael ei dalu ac awgrymodd Cyng Dunn – Dywedodd Cyng Jenkins pe tai rheolwr yn cael ei apwyntio fe ddylsai gael ei hysbysu oherwydd mae ganddom ddyletswydd I redeg y Cyngor yn deg ac yn loyw.
- Awgrymodd Cyng Dunn I unrhyw un ohonyn uno a Panel Y Plas Gofynnodd Cyng Jenkins os fyddai ‘n addas I berson busnes lleol I fod ar y panel – nid oedd hyn yn addas oherwydd bod y Cyngor wedi ei ethol gyda Cymuned Machynlleth, felly nhw oedd yn gyfrifol, ac hefyd efallai byddai person busnes fod a diddordeb croesdyniad ar adegau. Nid oedd yr un or Cynghorwyr wedi rhoddi ei enw ymlaen I ymuno ar panel.

.